

Ar Frig y Don

Adran y Gymraeg

Ionawr/Chwefror 2018

Rhifyn 6

GWOBR AM GYFRANIAD EITHRIADOL



Mae un o gyn-fyfrwyr Adran y Gymraeg, a raddiodd y llynedd, wedi ennill Gwobr Ede & Ravenscroft am gyfraniad eithriadol i fywyd myfyrwyr Prifysgol Abertawe.

Yn ystod ei gyfnod fel myfyriwr, bu Lewys Aron yn weithgar iawn gydag Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Abertawe gan wasanaethu fel Swyddog Materion Cymraeg. Yn dilyn hynny, etholwyd Lewys yn Llywydd Undeb y Myfyrwyr.

Wrth dderbyn y wobr, dywedodd Lewys, sy'n hanu o Gorslas yng Nghwm Gwendraeth: "Roedd yn bleser astudio ym Mhrifysgol Abertawe ac yn bleser pellach gallu rhoi rhywbeth yn ôl i'r Brifysgol."

Clinig iaith

Os bydd gennych chi unrhyw gwestiwn gramadegol, cofiwch am y **clinig iaith** bob dydd Mawrth, rhwng 1 a 2 o'r gloch.

Cysylltwch ag Alex Lovell i drefnu apwyntiad (A.E.Lovell@abertawe.ac.uk)

Lleoliadau gwaith

Os byddwch am gefnogaeth i drefnu lleoliadau profiad gwaith dros y Pasg neu'r haf, cysylltwch â'ch tiwtor personol neu â Dr Rhian Jones (Rhian.E.jones@abertawe.ac.uk).

Rhifyn nesaf Ar Frig y Don

Beth am ymuno â thîm Ar Frig y Don i gynhyrchu'r newyddlen nesaf? Os oes gennych chi ddi-ddordeb, cysylltwch â Chelsea o'r ail flwyddyn:

918409@abertawe.ac.uk

Cyfrannwch at achos Matthew

Ar Ebrill yr 8fed, fe fydd Matthew Tucker (Blwyddyn 3) yn rhedeg Marathon Paris. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Matthew wedi bod yn gweithio'n galed i godi arian tuag at elusen 'Prostate Cancer UK' er cof am ei Dad-cu a fu farw o'r salwch yn Hydref 2006.

Mae digwyddiadau'r flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys rhedeg Hanner Marathon Llanelli, Hanner Marathon Cymru a Hanner Marathon Caerdydd.

Fe fydd Marathon Paris yn benllanw i'r holl waith codi arian, a'r targed yw codi dros £400. Mae Matthew eisoes hanner ffordd at gyrraedd ei darged, felly byddai cyfraniadau yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Os ydych am gyfrannu, dyma'r ddolen i dudalen 'JustGiving' Matthew:

<https://www.justgiving.com/fundraising/matthew-tucker5>



Cefnogaeth Academaidd

Cymorth Gwaith: Am gymorth gydag ymchwil ar gyfer traethodau/gwaith cwrs, neu gyfeirnod, cysylltwch ag Ian Glen yn y Llyfrgell: I.Glen@abertawe.ac.uk.

Am gefnogaeth gyda chynllunio darn o waith / iaith a gramadeg, cysylltwch â staff y **Rhaglen Llwyddiant Academaidd**,: academicsuccess@abertawe.ac.uk. Gall eich tiwtor gysylltu ar eich rhan os ydych chi'n dymuno.

Cymorth Technoleg: Am gymorth gyda thechnoleg, ewch i'r ddesg gymorth yn y llyfrgell neu anfonwch e-bost: customerservice@swansea.ac.uk.

Cymorth Cyflogadwyedd: Am gefnogaeth gyda gyrfaoedd a phrofiad gwaith, cysylltwch ag Academi Gyflogadwyedd y Brifysgol **gan ofyn am wasanaeth cyfrwng Cymraeg:** careers@abertawe.ac.uk / 01792 295500 / <https://myuni.swan.ac.uk/cy/gyrfaoedd/>

Cymorth Ariannol: I gael cyngor cyfrinachol am faterion ariannol, ewch i Arian@BywydCampws.

Cymorth Lles: Am faterion lles, gellwch gysylltu â Gaynor Bracchi (G.Bracchi@abertawe.ac.uk) neu Clare Scott (Clare.Scott@abertawe.ac.uk)

Cofiwch hefyd fod gennych chi diwtor personol a all ddarparu cefnogaeth academaidd.

Aelod o'r adran yn llysgennad i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae Chelsea-Anne, myfyrwraig yn ei hail flwyddyn yn yr Adran wedi cael ei phenodi yn llysgennad i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae Chelsea yn un o ddau ddeg pedwar myfyriwr ar draws saith prifysgol yng Nghymru sydd yn cydweithio â'r Coleg.

Bu Chelsea yn Llangrannog cyn y Nadolig er mwyn cwrdd â'r llysgenhadon eraill a chael briff o'i rôl newydd, Fel rhan o'i rôl, bydd Chelsea yn pwysleisio'r holl gyfleoedd profiad gwaith ac ariannol a ddaw yn sgil astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r holl fanteision sy'n gysylltiedig â hynny.



Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Dr Hannah Sams, darlithydd yn Adran y Gymraeg, sydd yn dathlu derbyn ei PhD, ddegawd ar ôl cychwyn ar ei hastudiaethau israddedig yn yr adran.

Ar ôl y seremoni, fe ddywedodd Dr Sams "Braint yw cael bod yn aelod o staff yn yr Adran bellach a chydweithio â darlithwyr a fu'n ysbrydoliaeth imi."

Profiad gwaith

Bu nifer ohonoch ar brofiad gwaith ym mis Ionawr. Dyma argraffiadau Emily Chilcott o'r ail flwyddyn a dreuliodd wythnos yn Uned Gyfieithu Cyngor Rhondda Cynon Taf.



Roedd fy mhrofiad gwaith yn yr Uned Gyfieithu mor ddiddorol. Bu gen i ddiddordeb mewn cyfieithu ers amser ac mae hyn wedi gwneud i mi eisiau gweithio fel cyfieithydd ar ôl graddio. Mwynheais gyfieithu pethau ar gyfer y Cyngor, fel gwybodaeth ar gyfer y wasg a'r we a siarad â staff yn y swyddfa i ddarganfod mwy am gyfieithu a'u rôl nhw yn y swyddfa. Cefais gyfle i eistedd yn un o gyfarfodydd y Cyngor un prynhawn i glywed y merched yn cyfieithu ar y pryd ar gyfer aelodau di-Gymraeg o'r Cyngor a'r cyhoedd. Roedd hyn yn apelio'n fawr ataf ac roedd siawns i mi gael rhoi cynnig arni mewn ffordd anffurfiol gyda'r merched.